

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru

Interpret Wales

Gwanwyn Spring
2013 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

19

Yn y rhifyn hwn In this issue

Ar drywydd y
llwybr clywedol
**The evolution
of the audio trail**

Dwyieithrwydd:
cael yr iaith yn iawn
**Bilingualism: getting
the language right**

Digido

HistoryPoints

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES
Rhifyn 19 Gwanwyn 2013

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu:
Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd
y cyhoedd dros ein treftadaeth naturiol a
diwylliannol drwy gyfrwng dehongli o'r safon
uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr drwy
rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a
gynrychiolir gan yr asiantaethau sydd a'u
logos yn ymddangos isod.

Cynnwys

4-5 Ar drywydd y llwybr clywedol
Dan Boys

8-9 Dwyieithrwydd: cael
yr iaith yn iawn
Mari Gordon

12 Digidol
Mari Grug

14-15 HistoryPoints
Rhodri Clarke

18 Dehongli Fel y Graig –
adroddiad ar y digwyddiad
a gynhaliwyd gennym
yn ddiweddar
Claire Dovey Evans

20 Newyddion

Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales /
Dehongli Cymru
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
ffôn: 01600 860779

Llun y clawr: Llwybrau Clywedol (Dan Boys)
Chwith uchaf: Protestwyr ar Bont Trefechan, 1963 (NLW)
Dde uchaf: Y Bont, 2013 (Theatr Genedlaethol Cymru)

'Yr hawl i ddefnyddio eich iaith eich hun yn eich gwlad eich hun'

Dyna'r oedd aelodau Cymdeithas
yr Iaith Gymraeg yn gofyn amdano
ym mis Chwefror 1963 wrth
brotestio ar Bont Trefechan yn Aberystwyth.
Prin y gallent fod wedi dychmygu y byddai
eu protest ar y bont yn cael ei choffáu
hanner can mlynedd yn ddiweddarach
trwy ddarn o theatr stryd ar gyfer yr 21st ain
ganrif. Eu nod oedd cael eu harestio er
mwyn cael gwŷs yn Saesneg, y byddent yn
gwrthod ei chydnabod, i ymddangos gerbron
llys. Erbyn hyn caiff eu protest ei chydnabod
yn eang fel yr ymgais cyntaf i godi ymwyb-
yddiaeth o ddiffyg statws swyddogol (ar y
pryd) ar gyfer yr iaith Gymraeg. Dyma
oedd dechrau'r frwydr dros yr iaith.

Fis diwethaf, roedd cannoedd o bobl ar
strydoedd Aberystwyth yn gwyllo *Y Bont*.
Y bwriad yn wreiddiol oedd perfformio
Y Bont, a lwyfannwyd gan Theatr
Genedlaethol Cymru i nodi hanner can
mlynedd ers y brotest, ar un safle'n unig
ond datblygodd i fod yn ddarn o theatr
promenâd. Drwy sgwrsio â'r bobl a oedd
yn rhan o'r brotest wreiddiol a recordio
eu hanesion nhw o'r hyn a ddigwyddodd,
cynhyrchodd awduron *Y Bont* ddrama a
oedd yn crwydro strydoedd Aberystwyth.
Gyda rhywfaint o hanes byw, roedd yr
actorion yn gymysg â'r gynulleidfa, y bobl
a oedd yno yn 1963 a'r myfyrwyr a fu'n
plastro poster i ar adeiladau'n datgan
'Defnyddiwch yr iaith Gymraeg'.

Yn ôl yn 1963 roedd swyddogion yr
heddlu fel pe baent yn ymwybodol o awydd
y protestwyr i gael eu harestio, a bu iddynt
wrthod arestio neb! O ganlyniad, gwnaeth
yr ymgyrchwyr benderfyniad yn y fan a'r
lle i eistedd ar Bont Trefechan gan gau'r
ffordd fawr. Cafodd lleisiau'r dynion a'r
menywod a oedd yn cofio'r hyn a
ddigwyddodd hanner can mlynedd yn
ôl eu recordio ar gyfer *Y Bont*, ac roedd
modd i'r gynulleidfa yn 2013 eu clywed
trwy glustffonau wrth i'r perfformiad symud

o'r prom, i'r Swyddfa Bost, i gaffis y dref
ac ymlaen i Bont Trefechan lle clywyd
cym ceir yn canu wrth i'r bont gael ei
chau unwaith yn rhagor.


Gan mai dim ond 500 o docynnau a
oedd ar gael i'r gynulleidfa, defnyddiodd
Y Bont gyfuniad o wahanol gyfryngau –
theatr byw, ffilm, technoleg ddigidol a rhwyd-
weithiau cymdeithasol – i sicrhau bod modd
i bobl heb docynnau brofi'r perfformiad.
Denodd gweithgareddau ar gyfryngau
newydd, yn enwedig Twitter, gynulleid-
faoedd mawr wrth i #ybont gyrraedd
dros 200,000 o gyfrifon Twitter unigol.

Roedd y cydweithredu creadigol hwn
rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, S4C,
Green Bay Media, Canolfan y Celfyddydau
Aberystwyth a myfyrwyr o'r Coleg Gymraeg
Cenedlaethol, Prifysgol Morgannwg,
Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y
Drindod Dewi Sant yn deyrnged deilwng i
gyflawniadau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

Ym mis Gorffennaf, bydd Amgueddfa
Cymru yn trefnu seminar a fydd yn edrych
ar her dwyieithrwydd ym maes diwylliant a
threftadaeth. Bydd Comisiynydd y Gymraeg,
Meri Huws, yn esbonio ei dyheadau
ynghylch cenedl gwbl ddwyieithog ac effaith
Mesur y Gymraeg (2011). Mae angen i
bob un ohonom ystyried sut y mae ein
gweithgareddau'n cefnogi'r egwyddor sydd
wedi'i hymgorffori yn y Mesur, sef bod gan
bob siaradwr Cymraeg yr hawl i fyw ei
fywyd yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y
Gymraeg - neu fel y dywedodd
protestwyr 1963 - 'Yr hawl i ddefnyddio
eich iaith eich hun yn eich gwlad eich hun'.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu, ac
i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru am
ddarparu'r cyfieithiadau.

Ruth Waycott,
Golygydd.



That's what members of the Welsh
Language Society (Cymdeithas yr
Iaith Gymraeg) wanted in February
1963 when they protested on Trefechan
Bridge in Aberystwyth. They could hardly
have imagined that half a century later their
bridge 'sit in' would be commemorated
through a piece of 21st century street
theatre. Their goal - to be arrested -
meant they would receive a court
summons in English, which they would
refuse to recognise. Their protest is now
widely seen as the first attempt to raise
awareness about the lack of official status
(at the time) for the Welsh language. It
was the beginning of the battle for Welsh.

Last month hundreds of people took to
the streets of Aberystwyth to watch *Y Bont*
(The Bridge). Staged by the Welsh language
National Theatre of Wales (Theatr Genedl-
aethol Cymru) to mark 50 years since the
protest, *Y Bont* was initially planned for just
one site, but evolved into a promenade
piece. Talking to people involved in the
original demonstration and recording their
accounts of what happened, the authors of
Y Bont produced a drama which roamed
through the streets of Aberystwyth. With a
touch of living history actors mixed with the
audience, with people who had been there
in 1963 and with students who plastered
posters on buildings proclaiming 'Defnyddiwch
y Cymraeg' - 'Use the Welsh Language'.

Back in 1963 the police seemed to know
about the protesters' desire to be arrested
- and refused to arrest anyone! As a
result the campaigners made a spur of the
moment decision to sit down on Trefechan
Bridge, blocking the main road. The voices
of these men and women, remembering

'The right to use your own language in your own country'

what happened 50 years ago, were
recorded for *Y Bont* and could be heard
by the 2013 audience through head
phones as the performance moved from
the prom, the Post Office and the town's
cafes to Trefechan Bridge, where car horns
hooted as the road was blocked again.

With a limit of 500 in the audience *Y
Bont* employed a combination of different
media - live theatre, film, digital technology
and social networks - to ensure that
people without tickets could experience
the performance. New media activities,
especially Twitter, drew in large audiences
with #ybont reaching over 200,000
individual Twitter accounts.

This creative collaboration between
Theatr Genedlaethol Cymru, S4C, Green
Bay Media, the Arts Centre Aberystwyth
and students from y Coleg Gymraeg
Cenedlaethol, University of Glamorgan,
Aberystwyth University and the University
of Wales Trinity Saint David was a fitting
tribute to the achievements of the Welsh
Language Society over the past 50 years.

In July Amgueddfa Cymru are organising
a seminar looking at the challenge of
bilingualism in culture and heritage. The
Welsh Language Commissioner Meri
Huws will explain her aspirations for a fully
bilingual nation and the impact of the Welsh
Language Measure (2011). We all need
to consider how our activities support the
principle enshrined within this Measure -
that every Welsh speaker has the right to
live their life entirely through the medium
of the Welsh language - or as the 1963
protestors put it - 'The right to use your
own language in your own country'.

With thanks to all our contributors
and to Forestry Commission Wales
for translations.

Ruth Waycott,
Editor.

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU
Issue 19 Spring 2013

Published by the Countryside Council for Wales
on behalf of the Dehongli Cymru/Interpret
Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Forestry Commission Wales

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to
enthuse the public about our natural and
cultural heritage through interpretation of the
highest quality, and to support interpreters by
networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group
representing the agencies whose logos
appear below.

Contents

**6-7 The evolution
of the audio trail**
Dan Boys

**10-11 Bilingualism: getting
the language right**
Mari Gordon

13 Digidol
Mari Grug

16-17 HistoryPoints
Rhodri Clarke

**19 Cast Iron Interpretation –
a report on our recent event**
Claire Dovey Evans

20 News

Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat
Ruth Taylor Davies
lethaconsultancy@fsmail.net
tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter
Ruth Waycott
ruth@waycott.fsnet.co.uk
tel: 01600 860779

Front cover image: Audio Trails (Dan Boys)
Top left: Protestors on Trefechan Bridge, 1963 (NLW)
Top Right: Y Bont, 2013 (Theatr Genedlaethol Cymru)



Pili pala'n ymddangos wedi'i harosod dros god QR Camlas Trefaldwyn gan ei fod hefyd yn gweithio fel nodwr AR.

A butterfly appears superimposed over the Montgomery Canal QR code as it also works as an AR marker.

Mae app Mission: Butterfly yn defnyddio Realiaeth Estynedig fel hanfod y gêm. Gwylwch y fideo hyrwyddo fer. Gweler <http://www.youtube.com/watch?v=TUM9QLU0kac>

The Mission: Butterfly app uses Augmented reality at the heart of the game. See <http://www.youtube.com/watch?v=TUM9QLU0kac>

Mae Goblin Gwladus ym Mannau Brycheiniog yn dal i fod yn enghraifft o arfer gorau. Goblin Gwladus in the Brecon Beacons is still used as an example of best practice.

Ar drywydd y llwybr clywedol

Yn 2006, pe baech yn teipio 'llwybr sain' i beiriant chwilio mwyaf poblogaidd y byd, ychydig iawn o ganlyniadau fyddai wedi ymddangos oedd yn ymwneud â llwybrau sain yn yr awyr agored. Gwnewch hynna heddiw ac fe gewch dros 16 miliwn o ganlyniadau. Mae pob un yn hyrwyddo casgliad mawr o lwybrau sain ym mhob cwr o'r DU a thu hwnt, fel yr eglura **Dan Boys**.

Mae llwybrau sain yn ddull dehongli anymwrthgar sy'n helpu ymwelwyr i ymgysylltu â'u treftadaeth ar draws y wlad o drefi a phentrefi i gestyll a hen weithfeydd glo. Yn ei ffurf sylfaf, mae llwybr sain yn cynnwys adroddiad wedi'i recordio'n barod. Rhoddir cyfarwyddiadau ar ddiwedd pob ffeil MP3 i gyfeirio'r ymwelwyr at y lle nesaf o ddiddordeb, felly gall dehongli fod yn benodol ac yn amlsynhwyrdd. At yr adroddiad gellir ychwanegu darnau o hanes llafar, cymeriadau, barddoniaeth, cerddoriaeth ac effeithiau sain. Yn wir, gellir defnyddio fwy neu lai unrhyw beth sy'n glywadwy i ddod â'ch llwybr sain yn fyw, ac i annog y gwrandawyr i archwilio a darganfod.

Felly beth sydd wrth wraidd llwybr sain da?

Mae cynllunio da drwy gydol y prosiect yn hanfodol. Pan oeddem yn gweithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i gynhyrchu pum llwybr sain, cawsom gynlluniau dehongli byr ar gyfer pob safle. Roedd pob dogfen un dudalen yn hoelio sylw pawb at y gwaith ac roeddent yn ymdrin â phynciau fel arwyddocâd y safle, y rheswm dros weithredu, cynulleidfaoedd hen a newydd, amcanion y dehongli, prif neges(euon) y sefydliad a'r thema oedd yn sail i'r cyfan.

Er enghraifft:

"Daeth menywod ifanc o bob math o gefndir ac o bob cwr o'r DU i helpu yn y rhyfel drwy weithio yng nghoedwigoedd Cymru"

Mewn ymateb i hyn buom yn chwilio am adroddiadau hanesyddol a chyfoes o brofiadau marchied yn Nhan y Coed a thu hwnt i greu cymeriad dychmygol, a defnyddio digwyddiadau go iawn i adrodd ei hanes cyfareddol hi.

Roedd gennym gleientiaid yn un mor gydwybodol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae'n llwybrau sy'n seiliedig ar atgofion llafar a chymeriad arbennig (Goblin Gwladus) yn dal i gael eu defnyddio fel enghreifftiau o arfer gorau bum mlynedd yn ddiweddarach.

Agwedd allweddol arall yw'ch brwdfrydedd chi. Rydym yn hoffi dal y wreichionen gychwynnol a fu'n ysgogiad i greu'r prosiect a thynnu ar ddiddordeb heintus y rheiny sydd â rhan yn ei greu.

Yn ddiweddar bûm yn ysgrifennu sgript i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn. 'Welson ni mo'r daeargwn, yr eogiaid na'r llygod dŵr y soniodd fy nhywyswr amdanynt, ond llifodd ei gyffro am y warchodfa i mewn i mi a chafodd hyn ei adlewyrchu mewn ffordd gadarnhaol yn y ffordd yr es ati i ysgrifennu'r sgript.

Ym mhob enghraifft ni chafodd y prosiectau eu gwthio i unrhyw dechneg arbennig; dewiswyd llwybr sain oherwydd ei fod yn cyd-fynd â nodau'r prosiect.

Dyma grynoded gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ddeilliannau ac effeithiau eu prosiect

Deilliannau

Bydd ymwelwyr yn:

- Profi hanes y rhaeadrau mewn ffyrdd mwy personol a chofiadwy na thestun yn unig.
- Cael cyfle i wneud dewis ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu a'u profiad eu hunain.
- Cael eu hannog i archwilio'r ardal mewn ffordd ddiogel, gynaliadwy a phleserus.
- Cael ymwybyddiaeth gryfach o dreftadaeth ddaearogol yr ardal a'r dynodiad Geoparc.
- Cael mwy o gyfle i wybod am hanesion yr ardal, yn enwedig i'r rheiny â nam ar eu golwg neu'r rheiny sy'n methu ymweld yn gorfforol.

Effeithiau

Bydd Awdurdod y Parc yn elwa drwy:

- Ddenu cynulleidfaoedd newydd i'r teithiau cerdded o Bontneddfechan ac annog ymwelwyr i'r Ganolfan Rhaeadrau newydd.
- Beidio gorfod cael strwythurau parhaol sy'n ddolur llygad yn yr ACA a'r SoDdGA.
- Creu data digidol y gellir adeiladu arno wedyn mewn ffyrdd amrywiol e.e. gwefannau, arddangosfeydd, defnydd addysgiadol ayb.
- Treialu cyfryngau newydd fel yn ôl y targed yn y Strategaeth Ddehongli.
- Cynnwys y grŵp ieuencid lleol a'r gymuned.

Ydi llwybrau sain wedi esblygu?

Roedd gan ein llwybrau sain cyntaf draciau a oedd yn para rhwng dwy a phum munud ac roeddent yn cael eu gwrandawr arnyn nhw gan gerddwyr ar eu taith hir dros y rhostir. Ond heddiw ein nod yw cadw'r sain yn fyr ac yn fachog. Efallai nad yw 60-90 eiliad yn swnio'n hir, ond fe synnech chi faint o wybodaeth y gellir ei throsglwyddo yn yr amser hwnnw. Mae'r un faint â nifer tebyg o eiriau y byddech yn rhoi ar banel dehongli da.

Gyda datblygiad ffonau deallus, mae llwybrau sain wedi dod hyd yn oed yn fwy penodol gan eu bod yn caniatáu i ni ddefnyddio GPS i ysgogi cynnwys sy'n gysylltiedig â safle'r ymwelydd yn awtomatig. Ymhellach, gellir cyfoethogi'r sain gyda thestun, lluniau a fideo. Gellir cynnwys rhyngweithio hefyd drwy Gyfryngau Cymdeithasol, cwisiau a gemau.

Ar ddechrau 2012 aeth y nifer a oedd yn berchen ar ffôn deallus yn y DU yn uwch na 50% ac mae'r ffigur hwn yn parhau i godi. Dengys ystadegau fod 74% o'r rhai 15-64 oed yn berchen ar ffôn deallus. Os nad oes gan blant ffôn deallus (a mater o amser fydd hynny) yna bydd tri chwarter o'r bobl sydd gyda'r plant yn berchen ar un. Mae'r ystadegau hyn yn awgrymu y bydd gan fwyafrif helaeth ein hymwelwyr fynediad at ffôn deallus - ac mae'r ddyfais hon yn gyfrwng i ddarparu cynnwys amlgyfrwng mewn gwahanol haenau wedi'u targedu.

O ganlyniad mae 'apps' wedi gafael yn nychymyg y cyhoedd. Mae'r app ar gyfer iPhone am Laslyn a Bugeilyn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn yn enghraifft syml o sut y gall llwybr sain fanteisio ar sbardun GPS. Yn yr un modd mae'r ap Llwybrau Treftadaeth Rhondda Cynon Taf sydd gennym (iPhone ac Android) yn cynnwys pum llwybr sain dwyieithog sy'n rhoi canllaw gwerthfawr i ymwelwyr â'r ardal.

Mae prosiect diweddar wedi gwthio'r ffiniau o safbwynt ymwelwyr yn defnyddio'u ffôn deallus i ymddiddori mewn safleoedd treftadaeth. Fe ddatblygon ni Mission: Butterfly, sef gêm app dal pili-palod sy'n defnyddio Realiaeth Estynedig (AR). Proses yw AR o osod cynnwys digidol dros y byd go iawn. Yn yr achos hwn, mae rhith ieir bach yr haf yn gwibio ar draws sgrin y camera gyda'r warchodfa natur yn gefndir. Y dasg i'r defnyddiwr yw ceisio dal cynifer o ieir bach yr haf ag y gall. Mae'r pymtheg rhith rywogaeth wedi'u gwasgaru ar draws y warchodfa ac mae'r GPS yn sbarduno wrth i chi gyrraedd cynefin pili pala arbennig. Wedi i rywogaeth gael ei chasglu, caiff ei throsglwyddo i 'jar gasglu' ar gyfer ei dadansoddi ymhellach. Mae'r app hwn yn sicrhau y gellir gweld ieir bach yr haf ar y warchodfa drwy'r flwyddyn, ac mae'n galluogi ymwelwyr i wahaniaethu rhwng rhywogaethau a'u cynefinoedd unigol.

Mae codau QR yn ffordd dda o ddarparu sain ar y safle hefyd. Drwy sganio'r cod caiff y cynnwys ei ddangos fel pe drwy hud a

lledrith ar y ffôn deallus. Defnyddiwyd hwn gennym yn effeithiol ar hyd Camlas Trefaldwyn. Mae'r llwybr sy'n seiliedig ar y we yn cynnwys ffeithiau diddorol, lluniau a recordiadau o fywyd gwyllt ar hyd y llwybr. Mae'r disgiau dangos y ffordd bach yn ysgogiad gweledol defnyddiol i hyrwyddo'r prosiect.

Yn olaf, yn y dyddiau cyn llwybrau sain i'w llwytho i lawr, amgueddfeydd oedd yr unig lefydd i wrando ar dywysydd sain. Roedd 'ffyn hud' sain yn cael eu benthg i ymwelwyr. Mae'r dechnoleg hon wedi esblygu hefyd. Os nad yw ymwelwyr yn barod â'r sain wedi'i lwytho i lawr yna mae llawer o amgueddfeydd wedi mabwysiadu iPods, tabledi, neu setiau llaw eraill i'w benthg. Gall gweinyddu'r dyfeisiau hyn mewn safleoedd awyr agored fod yn drafferthus, ond mae tywysydd sain fel swfenir bach yn goresgyn y broblem hon. Gellir gwerthu'r chwaraewyr MP3 syml hyn o ganolfan wybodaeth neu siop leol ac yna gall yr ymwelydd eu cadw i gofio am yr ymweliad a'u defnyddio y tro nesaf y maent yn dychwelyd i glywed eich stori gyfareddol.

Dan Boys, Llwybrau Sain.
e. dan@audiotrails.co.uk

The evolution of the audio trail

Gall gwrandio ar lwybr sain ddod â safle'n fyw drwy greu darluniau ym meddwl yr ymwelydd.

Listening to an audio trail can bring a site to life by painting pictures in the mind of the visitor.

In 2006 if you typed 'audio trails' into the world's most popular search engine you would have returned few results relating to outdoor audio guides. Repeat that exercise today and you will receive over 16 million results. Each one promotes an array of audio trails covering every corner of the UK and beyond, as **Dan Boys** explains.

Audio trails provide an unobtrusive method of interpretation to help visitors engage with their heritage across the country from towns and villages to castles and former coalfields. In its simplest form an audio trail contains a pre-recorded narration and as directions are given at the end of each MP3 file to guide visitors to the next point of interest, interpretation can be very focused and multi-sensory. The audio can be enhanced with oral history excerpts, characterisation, poetry, music and sound effects. In fact just about anything that is audible can be used to bring your audio trail to life, and encourage listeners to explore and discover.

So what is at the heart of a good audio trail?

Good planning throughout the project is vital. When we worked with Forestry Commission Wales to produce five audio trails we were given mini-interpretation plans for every site. Each single-page document focused everyone on the job

in hand and covered topics such as site significance, reason for action, existing and new audiences, interpretive objectives, the organisations key message(s) and the overarching theme.

For example:

"Young women from a variety of backgrounds from all over UK came to help the war effort by working in the forests of Wales". In response we sought out historical and contemporary accounts of women's experience both at Tan y Coed and further afield to create a fictional character, and used real events to tell her spellbinding story.

From the Brecon Beacons National Park Authority we had equally conscientious clients and our oral reminiscence and character-based (Goblin Gwladus) trails are still used as examples of best practice five years on.

Another key aspect is *your* enthusiasm. We like to capture the initial spark that prompted the creation of the project and draw on the passion of those who are involved in its creation.

I recently completed writing a script for Radnorshire Wildlife Trust. We didn't see the otters, salmon or water voles my guide had told me about, but his infectious excitement for the reserve poured into me and this reflected positively in the way I approached and wrote the script.

In each example the projects weren't shoehorned into a particular media technique; an audio trail was chosen because it fit the aims of the project.



Llwybrau sain swfenir yw chwaraewyr MP3 bach wedi'u brandio a'u llwytho ymlaen llaw â llwybr sain.

Souvenir audio guides are small branded MP3 players pre-loaded with an audio trail.

BBNPA supplied a summary of the outcome and impacts of their project.

Outcomes

Visitors will:

- Experience the stories of the waterfalls in a more engaging and memorable way than text alone.
- Have the opportunity to exercise choice and take responsibility for their own learning and experience.
- Be encouraged to explore the area in a safe, sustainable and enjoyable manner.
- Have an increased awareness of the area's geological heritage and Geopark designation.
- Have increased accessibility to the stories of the area, especially for people with visual impairments or those unable to physically visit.

Impacts

The NPA will benefit by:

- Attracting new audiences to the walks from Pontneddfechan and encouraging visits to the new Waterfalls Centre.
- Providing an alternative to visually intrusive permanent fixtures in the SAC and SSSI.
- Creating digital data that once created can be used in various ways e.g. websites, exhibitions, educational use
- Piloting new media as per target in Interpretation Strategy.
- Involving the local youth group and community.

Have audio trails evolved?

Our first audio trails had tracks lasting from two to five minutes and were listened to by walkers on relatively long moorland walks. However today we aim to keep our audio short and sweet. 60-90 seconds may not sound long, but you would be amazed at how much information can be conveyed in that time. It is equal to a similar number of words you would put on a well-structured interpretation panel.

With the evolution of smartphones, audio trails have become even more streamlined as they allow us to use GPS to automatically trigger content related to the visitor's position. Furthermore, audio can be enhanced with text, photographs and video. Interactivity can also be incorporated through Social Media, quizzes and games.

At the beginning of 2012 smartphone ownership in the UK passed the 50% mark and this figure continues to rise. Statistics show that 74% of 15-64 year olds own a smartphone. If children don't own a smartphone (they will soon) then about three-quarters of the people they are with will. These statistics suggest that the vast majority of your visitors will have access to a smartphone – and this device is a vehicle for providing targeted and layered multimedia content.

As a result 'apps' have really captured the public's imagination. Our Montgomeryshire Wildlife Trust's Glaslyn and Bugeilyn iPhone app illustrates a simple example of how an audio trail can take advantage of GPS-triggering. Likewise our Rhondda Cynon Taf Heritage Trails app (iPhone and

Android) is embedded with five bilingual audio trails providing visitors with an invaluable guide to the area.


A recent project has pushed the boundaries with which visitors use their smartphone to engage with heritage sites. We developed *Mission: Butterfly* a butterfly catching app game using Augmented Reality (AR). AR is the process of layering digital content over the real world. In this instance, virtual butterflies flutter across the camera screen with the nature reserve as the backdrop. The user has the task of trying to catch as many butterflies as they can. The fifteen virtual species are spread across the reserve and GPS triggers your arrival in a particular butterfly's habitat. Once a species is collected it is transferred to a 'collection jar' for further analysis. The app ensures butterflies can be seen on the reserve all year round, and allows visitors to differentiate between species and their individual habits.

QR codes are a good way to provide on-site audio too. By scanning the code the content is magically displayed on a smartphone. We used this to good effect along the Montgomery Canal. The web-based trail contains fascinating facts, images and recordings of wildlife along the trail. The small waymark discs act as a useful visual prompt to promote the project too.

Finally, in the days before downloadable audio trails, museums were the only place to listen to audio guides. Audio 'wands' were loaned out to visitors. This technology has also evolved. If visitors are not prepared with the downloaded audio then many

museums have adopted iPods, tablets, or other handsets to loan out. The administration of these devices at outdoor sites can be problematic, but a small souvenir audio guide overcomes this problem. These simple MP3 players can be sold from an information centre or local shop and kept as a memento by the visitor to use when they return next time to hear your fascinating story.

Dan Boys is Creative Director at Audio Trails. e. dan@audiotrails.co.uk



Darlun(iau) o'r sgrin o app Llwybr Treftadaeth Rhondda Cynon Taf
Screenshot(s) from the Rhondda Cynon Taf Heritage Trail app

Timber Jills yn gweithio yn Nhan y Coed
Timber Jills at work in Tan y Coed



Dwyieithrwydd: cael yr iaith yn iawn

Mae mwy i ddwyieithrwydd na chyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol yn unig, fel yr esbonia **Mari Gordon** o Amgueddfa Cymru.

Fel pob corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae dyletswydd gyfreithiol ar Amgueddfa Cymru i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru

yn y Gymraeg a'r Saesneg ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rhoddodd Mesur y Gymraeg, a gyflwynwyd yn 2011, statws swyddogol i'r Gymraeg, ac mae wedi

ffurfioli cyfrifoldebau amrywiaeth ehangach o gyrrff cyhoeddus ar ffurf cyfres o 'safonau' mewn pum categori (Cyflenwi Gwasanaethau, Lluoio Polisi, Gweithredu, Hybu a Chadw Cofnodion). Cyflwynodd Mesur 2011 hefyd swydd newydd, sef Comisiynydd y Gymraeg (i fonitro bod y 'safonau' yn cael eu gweithredu). Mae pwerau'r Comisiynydd yn llawer mwy na phwerau Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt. Wedi'i hymgorffori yn y system safonau, a rôl y Comisiynydd, mae'r egwyddor fod gan bob siaradwr Cymraeg yr hawl i fyw ei fywyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn Amgueddfa Cymru rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau cyfreithiol o ddifrif. Fodd bynnag, mae i'r Gymraeg arwyddocâd arall i ni. Ni yw corff amgueddfeydd cenedlaethol Cymru; nid yn unig yr ydym yn darparu gwasanaeth i'n hymwelwyr, o bob rhan o'r byd, ond gyda'n casgliadau, ein harddangosfeydd a gweithgareddau eraill rydym yn ymdrechu i gynrychioli Cymru a phrofiadau ei phobl. Wrth inni ddehongli diwylliant Cymru, yn y gorffennol a'r presennol, rhaid i'r ffaith fod y diwylliant hwn wedi cael ei fynegi mewn dwy iaith fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Felly, i ni mae dwyieithrwydd yn gyfrifoldeb cyfreithiol, ond mae

hefyd yn rhan o'r hyn a wnawn a'r ffordd yr ydym yn ei wneud – ein busnes craidd, os mynnwch chi. Mae ein brand yn un dwyieithog – pan fyddwn yn cyfathrebu â'n defnyddwyr, ar draws gwahanol lwyfannau, rydym yn gwneud hynny mewn dwy iaith. Mae ein holl logos wedi'u creu o'r ddwy iaith, a mae ein holl frandio gweledol yn cynnwys y ddwy iaith. Mae'n bwynt gwerthu unigryw i ni, ac mae'n ein gosod ar wahân i amgueddfeydd cenedlaethol eraill y Deyrnas Unedig – tra ar yr un pryd yn ein cysylltu ag amgueddfeydd mewn gwledydd eraill lle mae'n arferol defnyddio mwy nag un iaith.

O ran dehongli, ein nod yw darparu cynnwys sy'n berthnasol a diddorol i'n hymwelwyr. Bydd unrhyw gyfieithydd yn dweud wrthyh y dylai cyfieithiad da ddarllen fel pe bai wedi cael ei ysgrifennu'n Gymraeg yn wreiddiol, ac rydym i gyd wedi gweld enghreifftiau o gyfieithu lle mae'r testun Saesneg gwreiddiol yn dal yn amlwg yng nghystrawen y Gymraeg. Neu, yn waeth, gwelsom briod-ddulliau ac ymadroddion a gyfieithwyd air am air, gan arwain at gynnwys diystyr a digon rhyfedd ar adegau. Y nod cyffredin arall yw y dylai'r cynnwys Cymraeg weithio ar ei haeddiant ei hun; hynny yw, ni ddylai'r sawl sy'n ei ddarllen orfod ailedrych neu gyfeirio at y Saesneg.

Dylai'r cynnwys felly fod wedi ei ysgrifennu'n dda – rydym yn cymryd hynny'n ganiataol. Gyda lwc bydd hynny'n ei wneud yn ddi-ddorol. Fodd bynnag, nid yw hynny ohono'i hun yn ei wneud yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd. I wneud hynny, dylem feddwl am ein cynulleidfa fel y man cychwyn. Os ydych chi'n ddehonglydd, efallai fod hynny'n swnio'n amlwg. Pe baem ni, dyweder, wrthi'n cyfieithu cyfarwyddiadau technegol ar sut i gydysod dodrefnyn,

byddai'r cyfieithiad yn cadw mor agos at y gwreiddiol â phosib. Y testun gwreiddiol fyddai ein man cychwyn. Ond os ydym yn dehongli eitemau i'w harddangos er mwyn adrodd storiâu am ein gorffennol, gyda'r bwriad y bydd ein cynulleidfaoedd yn gweld rhyw elfen ohonynt eu hunain yn y storiâu hynny – mae'r dasg gyfieithu honno'n hollol wahanol.

Mae mân bwyntiau a fydd yn gwneud testun Cymraeg yn fwy naturiol. Er enghraifft, lle mae'r Saesneg yn cyfeirio at 'north Wales', yn Gymraeg gallwn ddweud yn syml 'y Gogledd'. Ac, fel y cyfeiriwyd yn gynharach, os oes ymadroddion neu briod-ddulliau yn y Saesneg, rydym yn chwilio am rhywbeth tebyg (os nad cyfatebol – mwy na thebyg na fydd hynny i'w gael) sy'n cael ei ddefnyddio'n naturiol yn Gymraeg. I fynd â hyn gam ymhellach, os oes dyfyniadau llenyddol neu gerddi'n cael eu defnyddio, rydym yn chwilio am waith Cymraeg gwreiddiol (ceir enghraifft o hyn yn oriel archeoleg Gwreiddiau, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd).

Ond, wrth gwrs, mae i hyn oblygiadau gweithredol – a goblygiadau o ran adnoddau. Mae datblygu cynnwys yn y ffordd hon yn cymryd amser a blaengynllunio manwl. Pan ydym wedi llwyddo i wneud hyn yn Amgueddfa Cymru, mae wedi golygu bod ein cyfieithwyr, sef awduron cynnwys Cymraeg y sefydliad mewn gwirionedd, wedi gweithio gyda'r timau prosiect a'r curaduron yn arbennig o'r cychwyn cyntaf, fel eu bod yn gwybod o'r dechrau pwy yw'r gynulleidfa darged, beth yw'r themâu a pha negeseuon allweddol y mae'r arddangosfa yn eu cyfleu. Bydd hyn yn dylanwadu ar yr iaith, y cywair a'r derminoleg a ddefnyddir yn ddiweddarach. Fodd bynnag, wrth fynd ati i gynhyrchu'r cynnwys, mae mewnbwn gan y cyfieithydd ac o bosib siaradwyr Cymraeg eraill ar y cam hwn yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol rhwng cynnwys sy'n taro deuddeg gyda'n cynulleidfaoedd Cymraeg a chynnwys nad yw ond yn fersiwn Cymraeg o'r gwreiddiol. Drwy gynllunio'r cydweithio creadigol hwn fel rhan o'r broses ddatblygu o'r cychwyn cyntaf gallwn sicrhau ein bod yn rhoi persbectif dilys i'r deunydd pwnc.

Fel enghraifft, gadewch inni edrych ar yr artist Kyffin Williams. Bydd y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn gwybod am Kyffin;

mae gan lawer o gartrefi dosbarth canol Cymraeg eu hiaith baentiad neu luniad neu o leiaf brint o'i waith ar waliau'r ystafell fyw. Yn ôl arfer y Cymry, mae pobl yn cyfeirio ato'n aml wrth ei enw cyntaf – hyd yn oed os na wnaethant gwrdd ag ef erioed! Gellir rhagdybio rhyw lefel o agosatrwydd rhwng rhai cynulleidfaoedd a rhai mathau o ddeunydd pwnc. Yn yr enghraifft hon, mae gan gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith fath arbennig o berthynas â'r artist Kyffin Williams. Dychmygwch, felly, gymaint y byddai'n mynd dan groen pobl pe baem yn ysgrifennu amdano ef, Kyffin, yn yr un ffordd yn union yn Gymraeg ag a wnawn yn Saesneg. Mae llawer o enghreifftiau eraill,

gwell mwy na thebyg, y gallem edrych arnynt. Ond mae'r egwyddor yn un gyffredinol waeth beth yw'r deunydd pwnc – ein bod yn cymryd ein cynulleidfaoedd, a'u profiadau nhw, fel ein man cychwyn. Yng Nghymru, mae hyd at 20 y cant o'n cynulleidfa ddomestig yn bobl sy'n profi rhywfaint o leiaf o ddiwylliant drwy gyfrwng y Gymraeg. A hyd yn oed os nad ydynt, mae diwylliant a threftadaeth Cymru wedi cael eu siapio gan fodolaeth y Gymraeg.

Mari Gordon yw Pennaeth Cyhoeddiadau Amgueddfa Cymru. e.mari.gordon@amgueddfacymru.ac.uk.



Cred

Pan gododd haul ar fore bach y byd,
Cyn geni sant na phroffwyd, pwy a ddwéd
Gan bwy, ac i ba ddiben, a pha bryd
Y dodwyd yn ein henaid hedyn Cred?
Y grym anorthrech a roes faen ar faen
Mewn pyramid, pagoda, llan a mosg,
A thaenu chwedl a chân a chelf ar daen
I dorri rhywfaint ar ein syched llosg.

O ble y daeth elyllon yr Un Drwg
Ac ofergoelion pitw ofnau'r cnawd
I gynnig ein hymwared rhag eu gwg
Neu geisio prynu, weithiau, wenau ffawd
A'n rhoi'n y dafol rhwng y Nef a'r Fall
I ryw bendilio rhwng y naill a'r llall?

Dic Jones

Comisiynydd ar gyfer Oriel 1, 2006
Commissioned for Oriel 1, 2006



Bilingualism: getting the language right

There's more to bilingualism than simply fulfilling legal responsibilities as **Mari Gordon** from Amgueddfa Cymru explains.

Like all Welsh Government-sponsored bodies, Amgueddfa Cymru have been legally bound to provide services to the public in Wales in both Welsh and English since the Welsh Language Act of 1993. The introduction of the Welsh Language Measure in 2011 gave the Welsh

language official status, and formalized the responsibilities of a wider range of public bodies into a set of 'standards' in five categories (Service Delivery, Policy Making, Operational, Promotion and Record Keeping). The 2011 Measure also introduced the new post of a Welsh Language Commissioner (to monitor the implementation of the 'standards') whose powers far exceed those of the former Welsh Language Board. Enshrined in the standards system, and the role of the Commissioner, is the principle that every Welsh speaker has the right to live their life entirely through the medium of the Welsh language.

At Amgueddfa Cymru we take our legal responsibilities seriously. However, the Welsh language has other significances for us. We are Wales' national museums body; not only do we provide a service to our visitors, from all over the world, but with our collections, exhibitions and other activities we strive to represent Wales and the experiences of its people. As we interpret Wales' culture, past and present, the fact that this culture has been expressed in two languages must be embedded in everything we do.

So, for us bilingualism is a legal responsibility, but it's also part of what we do and how we do it – our core business, if you like. Our brand is a bilingual one – when we communicate with our users, across various platforms, we do so in two languages. Our logos are formed out of the two languages, all our visual branding includes both languages – as does our full name. It's a USP for us, and what differentiates us from other UK nationals – while at the same time aligning us with museums in other countries where the use of more

than one language is the norm.

In terms of interpretation, our aim is to provide content that is relevant and engaging to our visitors. Any translator will tell you that good translation should read as though it was written in Welsh first, and we've all seen examples of translation where the original, English-language text is still evident in the structure of the Welsh. Or, worse, idioms and phrases have been directly translated, resulting in meaningless and sometimes quite bizarre content. The other common aim is that the Welsh content should work on its own terms; that is, the reader shouldn't have to double-check or refer to the English.

The content should therefore be well written, that's a given. Hopefully that should make it engaging. However, this in itself doesn't make it relevant to our audiences. To address this, we should take our audience as the starting point. If you're an interpreter, that might sound obvious, trite even. But if we were in the business of translating, say, technical instructions for how to assemble a piece of furniture, our translation would mirror the original as closely as possible. The original text would be our starting point. But if we're interpreting exhibits in order to tell stories about our past, with the aim that our audiences can find something of themselves in those stories – that's a different translation job entirely.

There are minor points that will 'naturalize' the Welsh writing. For example, where the English refers to 'north Wales', in Welsh we can simply say 'y Gogledd' (the north), as every Welsh speaker will know what this means. And, as referred to earlier, if there are phrases or idioms in the English, we look for something similar (if not equivalent – there probably isn't

one) that's used naturally in Welsh. To take this a step further, if literary quotes or poems are used, we source original Welsh works (there's an example of this in the archaeology gallery, Origins, at National Museum Cardiff).

But of course this has operational – and resource – implications. To develop the content in this way takes time and careful forward planning. When we have achieved this at Amgueddfa Cymru, it involved our translators, who are effectively the organization's Welsh-language content authors, working right from the beginning with project teams and especially the curators, so that they know all along who the target audience is, what the themes are and what key messages the exhibition is expressing. This will inform the language, tone and terminology used later. However, when it comes to producing the content, input from the translators and possibly other Welsh speakers at this stage can make all the difference between content that truly resonates with our Welsh-speaking audiences and content that is merely a Welsh-language version of the original. By planning this creative collaboration into the development process from the beginning we can ensure that we bring an authentic perspective to the subject matter.

As an example, let's take the artist Kyffin Williams. Most Welsh speakers will be aware of Kyffin; many middle-class Welsh-speaking households have a painting, or a drawing or at least a reproduction of his on their living-room walls. As is the Welsh habit, people often refer to him by his first name only – even if they've never met him! A certain level of familiarity can be taken as a given between some audiences and certain subject matter. In this example, Welsh-speaking audiences have a particular kind of relationship with the artist Kyffin Williams. Imagine, therefore, how jarring it would be if we wrote about him, Kyffin, in exactly the same way in Welsh that we did in English. There are many other, and probably better, examples we could look at. But the principle is an overarching one whatever the subject matter – that we take our audiences, and their experiences, as our starting point. In Wales, up to a fifth of our domestic audience are people who experience at least some culture through

the medium of the Welsh language. And even if they don't, the culture and heritage of Wales is one that has been formed by the existence of the Welsh language.

Mari Gordon is Head of Publications Amgueddfa Cymru - National Museum Wales. e. mari.gordon@amgueddfacymru.ac.uk.



Revival

"The next revival will be a singing revival."
Joseph Parry

It was boots and hallelujahs on the roads that day.
By dawn the place was full and still they came
Under autumn skies, down steep and stony ways.
To hear a young man speak. In each a flame
Flickered in the reliquary of the heart,
Somewhere between faithlessness and hope.
We see them, stilled by the camera's art,
A multitude frozen on a mountain slope,
The collier from the south driven by desire
To preach. In our dangerous century
Words can set a hungry crowd on fire,
Fists raised against the hurts of history.
What grace then, on the hill, touched those listening
And set a thousand voices singing?

Gillian Clarke

Comisiynwyd ar gyfer Oriel 1, 2006
Commissioned for Oriel 1, 2006

Pen brenhinol Royal head	Chwarae â geiriau Word play
Yn ystod y 1200au, addumai llywodraethwyr Cymreig eu ceistyll newydd mewn modd a fyngodd eu gobath o reoli gwladwriaeth fodern. Catodd y gerreg galed ddyllawad ar yr ardud. Mae'n debyg mai portreadu Llywelyn ab Iorwerth (1173-1240) y gwna'r corbel hwn. Fe'i darganfuwyd wrth gloddio yn ei gastell yn Neganwy, Conwy. Gall fod wedi dod o'i neuadd, sydd bellach wedi difannu. Benthycwyd gan Maelyn Estates Ltd Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybrwn, Un funud fwy cyn delo'r hwy i'w hynnt, I gollo am y pethau angofedig Ar goll ym awr y llwch yr amser gynt. Walter Williams, <i>Dal Pen</i> (Dewag Corner, 1998)	Roedd nifer o arweinydd Cymreig yn roddi mynachlogydd Sistersaidd. Mae'r gerreg hon o Penrhofelau, Conwy, yn cofio modd o dir gan Llywelyn ab Iorwerth (1194-1240) i'r fynachlog Sistersaidd yn Aberconwy, gerllaw. Gellir darllen yr arysgrif, a ysgrifnwyd rhwng 1198 a 1230, fel dogfen. Mae'n chwarae ar eiriau, mewn cymysgidd gyflwr o Gymraeg a Lladin. Mae'r deymged gywraih hon yn esbonio ffurf Lladinaidd enw Llywelyn. ED vich LN Di enw aLevon[ge] Fortivd[n]le Brachi mesure Leveline pr[n]h[ceps] North[all]le Daw'r enw Levelin o 'lew' – Ac o cym 'lein' – brach Levelinus, Tywysog Gogledd Cymru
Mae'r enw Llywelyn ab Iorwerth yn Mynachlog Aberconwy (1240). Yn awr, wrth i'r lloerwrth agorall, dderbynia'r mynachlogydd Sistersaidd enwau o'r brachau breiddied yn fynachlog. During the 1200s, Welsh rulers decorated their new castles in a way that expressed their hopes to rule a modern state. The hard stone influenced the severe style. This corbel probably depicts Llywelyn ab Iorwerth (1173-1240). Found during excavations at his castle at Deganwy, Conwy, it may have come from his now-vanished hall. Lent by Maelyn Estates Ltd A stone face sleeps beneath the earth With open eyes. All history is its dream... Now in a cold and stormy Spring we stand At the unearthing of the sovereign head... Hart Webb, written as a response to its discovery in 1968	Many Welsh rulers endowed Cistercian monasteries. This stone from near Penrhofelau, Conwy, commemorates a gift of land from Llywelyn ab Iorwerth (1194-1240) to the Cistercian abbey at Aberconwy nearby. The inscription, cut between 1198 and 1230, can be read like a document. It plays on words, in a clever mixture of Welsh and Latin. This elaborate compliment explains Llywelyn's Latinised name. ED vich LN Di enw aLevon[ge] Fortivd[n]le Brachi mesure Leveline pr[n]h[ceps] North[all]le The name Levelin is from 'lew' – lion And from the might of 'lein' – arm O Levelinus, Prince of North Wales

digiDO

CYNNWYS DIGIDOL I FUSNES DIGITAL CONTENT FOR BUSINESS

Mae DigiDo yn brosiect newydd a gaiff ei gynnal gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyda'r nod o gynnig cynnwys digidol i fusnesau creadigol er mwyn eu hannog i arloesi. Mae DigiDo yn darparu cyfle i'r busnesau hyn fanteisio ar y drysorfa fawr sydd yn y Lyfrgell Genedlaethol a'i hailddefnyddio. Dyma **Mari Grug** yn cyflwyno DigiDo...



Portrait of Cranogwen from the collection of photographs by John Thomas.
Portread o Cranogwen allan o gasgliad ffotograffau John Thomas.



Shoes – created by Penny Richards using the portrait of Cranogwen.
Sgidie - Llundun o'r esgidiau a grewyd gan Penny Richards gan ddefnyddio'r portread o Cranogwen.

Prosiect sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop yw DigiDo. Mae'r prosiect yn un newydd a chyffroes sy'n cael ei redeg gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gyda'r bwriad o gynnig cynnwys digidol i fusnesau yng Nghymru. Yma, mae cyfle i chi ennill trwydded am ddim i ddefnyddio casgliadau'r Lyfrgell mewn modd masnachol. Bwriad y prosiect yw hybu busnesau yng Nghymru i allu cystadlu'n lleol yn ogystal ag yn fyd-eang. Gallai'r drwydded hon arwain at gynnyrch neu wasanaeth newydd.

I ymgymhwyso ar gyfer trwydded DigiDo rhaid eich bod yn bodoli, fel busnes neu unigolyn, o fewn ardaloedd cydgyfeiriant Cymru. Hynny yw, yn bennaf Gogledd, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Yn ail, rhaid mynychu un digwyddiad, am ddim, sy'n cael eu cynnal yn Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'r digwyddiadau yn cynnig mewnwelediad i chi o waith dyddiol staff y Lyfrgell, hawlfraint, y broses ddigido ac arbenigedd ar wahanol gasgliadau.

Mae digido eitemau yn parhau i gael ei gynnal o fewn y Lyfrgell Genedlaethol ei hun. Mae'r Lyfrgell yn llwyddo i gwblhau'r gwaith gan ddefnyddio'r offer mwyaf diweddar. Dyma brawf o safon yr eitemau digidol hyn bydd yn cael eu cynnig i chi mewn ansawdd uchel. O ganlyniad i'r grant a gafodd y Lyfrgell, maent hefyd wedi llwyddo i gynnig gwasanaeth OCR i ddarllenwyr ar bapurau newydd a chylchgronau Cymraeg. Mae OCR sef Adnabod Llythrennau'n Optegol (Optical Character Recognition) yn broses electronig sy'n galluogi peiriant i droi llawysgrifen mewn eitemau i mewn i destun argraffiadol digidol

(text). Canlyniad y wasanaeth OCR yw bod modd i ddarllenwyr ac ymchwilyr chwilio'r testun yn gyflymach gan adnabod teitlau, hysbysebion a geiriau unigol.

Mae ffotograffau, mapiau, darluniau, archifau, llawysgrifau yn ogystal â'r papurau newydd a'r cylchgronau i gyd yn cael eu cynnig i chi trwy'r prosiect DigiDo. Dyma eich cyfle i fanteisio ar yr ystorfia gyfoethog o eitemau sy'n bodoli yno. Mae tri deg wyth o gwmnïau eisoes wedi cofrestru i ymuno a'r prosiect a rhai syniadau cyffroes yn dechrau dwyn ffrwyth, megis llwyfr newydd gan Gwyn Thomas, *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr sydd yn ei gerddi*. Cafodd dyluniad y llyfr ei greu trwy ddefnyddio llawysgrifau o gasgliadau'r Lyfrgell.

Defnyddiodd Penny Richards lun o gasgliad ffotograffau John Thomas er mwyn adnewyddu pâr o esgidiau. Dywedodd Penny Richards am ei chynnyrch, "Mae pobl wrth eu bodd gyda hen luniau, yn arbennig portreadau. Mae fy nghynnyrch yn dal sylw golion yn achlysurol. Dwi'n hoff o'r ffordd gall llun hanesyddol ar bwrs, crys-t neu bin ysgogi sgwrs. Mi fyddaf bob amser yn chwilio am lun sy'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r nod arbennig hwnnw, hynny yw maint, cysgod neu ansawdd. Yn bwysicach na hynny, delweddau sy'n tynnu sylw. Mae delweddau sy'n cyd-fynd gyda'r anghenion hyn yn ysbrydoliaeth ei hun!"

Am wybodaeth bellach am brosiect DigiDo, ewch at www.digido.org.uk. Ar y llaw arall, i fynychu unrhyw ddigwyddiadau, cysylltwch â Mari Grug yn uniongyrchol ar: e. mari.grug@llgc.org.uk t. 01970 632983.

Self portrait of Kyffin Williams from the 'Framed Works of Art' collection (1968)

Hunan bortread o Kyffin Williams allan o gasgliad 'Gweithiau Celf mewn Ffram'. (1968)



Image on the front page of the Cymro newspaper on St Davids Day of a little girl in Welsh costume holding a copy of the newspaper. Geoff Charles photographs (1954)

Delwedd ar flaen papur newydd Y Cymro ar ddiwrnod Dewi Sant o ferch fach mewn gwisg Gymreig yn dal copi o'r papur newydd. Ffotograffau Geoff Charles. (1954)



A young boy with a tame gosling - from the collection of photographs by Geoff Charles (1950)

Llanc ifanc gyda'i gwy bach dŏf, allan o gasgliad ffotograffau Geoff Charles. (1950)



DigiDo is a new project run by the National Library for Wales with the aim of offering digital content to creative businesses to encourage innovation. DigiDo provides an opportunity for these businesses to exploit and re-use the large repository that exists within the National Library of Wales. **Mari Grug** introduces DigiDo...

Funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government, DigiDo offers businesses in the convergence area of Wales the chance to gain a free licence to use the National Library Wales' collections in a commercial manner. The project aims to promote businesses in Wales and to give them the ability to compete both locally and globally. This licence could lead to new products or services.

To qualify for the DigiDo licence you must exist as a business or individual within the convergence area - that is, primarily North West Wales and the Valleys. Secondly, you must attend one event, free of charge, held during the year at the National Library Wales. The events offer an insight into the daily work of the Library staff, copyright, the digitization process and expertise on different collections.

The digitization of items continues within the National Library itself. The library has

successfully completed this work using the latest equipment, so that the digital items available are of the highest quality. As a result of the grant received National Library Wales have also managed to offer an OCR service to Welsh newspaper and magazine readers. OCR is Optical Character Recognition - the optical recognition of letters is an electronic process that converts scanned images into machine readable text. The OCR service enables readers and researchers to find text quickly by identifying titles, advertisements and individual words.

Photographs, maps, drawings, archives, manuscripts as well as newspapers and magazines are all being offered through the DigiDo project, creating the opportunity to take advantage of the rich repository of items that exist at the National Library Wales. Thirty eight companies have already registered to join the project and some exciting ideas are beginning to bear fruit such as Gwyn Thomas' new book – *Dafydd ap Gwilym: Y Gŵr sydd yn ei gerddi* – created using manuscripts from the Library's collections.

Penny Richards used a picture from the Library's John Thomas photographic collection in order to renew a pair of shoes and create something beautiful. 'People love "old photos", especially formal portraits, I find. I like the way a historical purse, t-shirt or pin can spur conversations. I always look for images that will work within the practical constraints of size, shape and quality. More importantly, I look for images that catch the eye and tell an interesting story.'

This four year scheme is supported by the European Regional Development Fund.
Mae'r cynllun pedair mlynedd hwn yn cael ei gefnogi gan Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop.



An image that fits all three needs is inspiration enough!

For further information on the DigiDo project see: www.digido.org.uk
To attend any of the events contact Mari. Mari Grug is Business Liaison Officer at the National Library of Wales e. mari.grug@llgc.org.uk t. 01970 632983

History Points



Erbyn hyn mae QRs HistoryPoints ar bob gorsaf bad achub yng Nghymru. Gall pobl ddarllen am gyrchoedd achub, trasediau a'r cychod ar eu ffonau deallus.

HistoryPoints QRs are at every lifeboat station in Wales. Passers-by can now read about rescues, tragedies and boats on their smartphones.

Mae cynllun o'r enw

HistoryPoints wedi rhoi

codau QR mewn cannoedd

o fannau ar draws Cymru –

gan ddod â hanes i'r cyhoedd

ar ffôn symudol neu lechen.

Mae golygydd HistoryPoints,

Rhodri Clark, yn egluro.

Dyfeisiwyd y syniad wrth wraidd HistoryPoints ym mis Rhagfyr 2011 i fanteisio ar y cyfrifiaduron grymus y mae cynifer ohonom yn eu cario erbyn hyn. Gyda ffonau deallus ac iPads yn gallu cysylltu â'r rhyngwrwyd yn y rhan fwyaf o drefi Cymru ac mewn llawer o ardaloedd gwledig, roedd cyfle i gyflwyno rhywbeth sy'n gyfuniad o arweinyfyr a phlac glas i'r cyhoedd – a hynny gyda chapasiti mwy na'r naill a'r llall. Gan fod codau QR yn dod yn fwy cyfarwydd, yn bennaf drwy'r defnydd masnachol ohonynt, ein nod ni oedd manteisio ar hyn mewn ffordd gydlynol.

Treialwyd HistoryPoints yng Nghonwy yn gynnar yn 2012, gyda chefnogaeth nifer o landlordiaid a rheolwyr. Ar un pegwn roedd gwirfoddolwyr yn adfer perllan hanesyddol, a disgynnydd Pumed Swyddog arwrol y Titanic. Ar y pegwn arall roedd cynghorau lleol, Sefydliad Brenhinol

Cenedlaethol y Badau Achub, yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Babyddol, yr Academi Frenhinol Gymreig, y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar a Network Rail.

Ariannodd Siambr Fasnach Conwy y gyfres gyntaf o blaciau a sticeri ffenest QR, heb geisio ymyrryd ag annibyniaeth olygyddol y prosiect. Dyna yw congflaen HistoryPoints. Caiff pob safle "HiPoint" ei ddewis oherwydd ei ddiddordeb – ac nid byth am fod cwmni masnachol wedi talu amdano. Rhoddodd swyddog cynllunio cadwraeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyngor gwerthfawr inni am ble a sut y gallem roi QRs. Roeddem yn anelu am y safon uchaf bosib gan fod Conwy yn Safle Treftadaeth Byd!

Dylunydd HistoryPoints, Eugene Stevenson, ddatblygodd y rhyngwyneb, gyda defnyddwyr ffonau deallus mewn golwg. Mewn ardaloedd lle mae'r derbyniad

yn wael, weithiau mae'n cymryd sawl cynnig i lawrlwytho tudalen; faint o bobl fyddai'n dyfalbarhau ar ôl un neu ddwy neges "nid yw'r dudalen we ar gael"? Felly nid oes unrhyw ddeunydd diangen yn cael ei ganiatáu, sy'n gwneud y tudalennau braidd yn blaen yn ôl safonau'r rhyngwrwyd. Mae'r system yn darparu crynodeb testun ym mhob lleoliad, yn annibynnol ar fynediad i'r rhyngwrwyd. Gall defnyddwyr storio cyfeiriad y dudalen we, os yw'r crynodeb wedi pigo'u diddordeb ond nad ydynt yn gallu lawrlwytho yn y fan a'r lle.

Roedd yr HiPoints cyntaf yn cynnwys taith gerdded hunan-dywys "Ysbrydion a Chwedlau" yng Nghonwy, i fachu'r rhai nad ydynt yn ystyried bod ganddynt ddiddordeb mewn Hanes. Ymysg y teithiau lleol a sefydlwyd wedi hynny mae "Dig for Victory" ym Mae Colwyn, sy'n paru adeiladau â'r defnydd a wnaed ohonynt yn ystod y rhyfel gan adrannau'r Weinyddiaeth Bwyd a oedd wedi cael eu hadleoli – roedd hyn yn cynnwys dyfeisio rysetiau fel "Brains on toast"!

Mae teithiau yn un o sawl dyfais a ddefnyddir i annog pobl sy'n darllen un dudalen i archwilio HiPoints cysylltiol, gan ddefnyddio'r mapiau sy'n cael eu darparu. Mae rhai cysylltiadau yn croesi ffiniau sirol

neu ranbarthol. Roedd y peilot yn cysylltu HiPoints ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, yn cynnwys tudalen yn egluro enwau (gyda ffeiliau sain ar gyfer yr ynganiad) y copaon sydd i'w gweld o Fynydd y Dref (neu Fynydd Conwy). Erbyn i Llwybr Arfordir Cymru gael ei agor yn swyddogol ym mis Mai 2012, roedd gennym 37 HiPoint ar y llwybr ar draws Bwrdeistref Sirol Conwy, yn egluro nid dim ond hanes adeiladau ond hefyd y ddadareg, enwau lleoedd, llên gwerin, digwyddiadau arwyddocaol, hanes naturiol a'r storïau cudd y tu ôl i gofebau.

Llwybr Arfordir Cymru yw'r asgwrn cefn a ddefnyddiwyd gan HistoryPoints i ymestyn i dde, canolbarth a gorllewin Cymru. Adeg ysgrifennu'r erthygl hon, mae bron i 200 o HiPoints ar hyd y llwybr, o'r Fflint i Gasgwent. Ni chredwn fod dehongli mor gynhwysfawr i'w gael ar ffonau symudol am unrhyw lwybr pellter hir arall yn y byd. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar brif lwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar draws Cymru. Mae un o'n teithiau diweddaraf yn dilyn Ffordd y Pererinion yng ngogledd Cymru, gan gyflwyno technoleg fodern ar lwybr sydd wedi cael ei droedio am fwy na 1,000 o flynyddoedd.

Nid ydym yn honni bod yn hollgynhwysfawr – rydym yn fwy o *Lonely Planet* nag *Encyclopaedia Britannica*. Mae i bob adeilad, pont a choeden hanes; ein tasg ni yw tynnu sylw at y rhai mwyaf diddorol. Yng Nghonwy'n unig, byddai dehongli cynhwysfawr wedi golygu cannoedd o QRs ond byddai hynny'n

llethu ymwelwyr (ac yn ypsatio'r swyddog cynllunio cadwraeth mae'n siŵr). Nid yw henaint yn gwarantu bod hanes adeilad yn ddiddorol. Rydym cyn baroted i gynnwys adeiladau diweddar, fel y Senedd, â hen rai. Mewn rhai ardaloedd, mae cyfranogiad cymdeithasau hanes wedi sgubo HistoryPoints ymlaen.

Mae naw iaith ar ein gwefan, lle mae gwirfoddolwyr wedi cyfieithu'r testunau. Mae Ffrances sy'n caru Cymru wedi cyfieithu mwy na 150 o dudalennau HiPoint. Mae ymwelwyr yn mwynhau arweiniad Ffrangeg yn rhad ac am ddim, ac mae'r wybodaeth yn weladwy i beiriannau chwilio Ffrangeg – a allai ysgogi ymweliadau newydd. Mae rhai o'n cyfieithiadau Tsieineaidd wedi'u teulwrio i egluro cysyniadau cymdeithasol sy'n gyfarwydd i Ewropeaid.

Yr anhawster mwyaf yr ydym wedi'i gael yw bod perchenogion neu reolwyr eiddo yn cael ein QRs cyn gynted ag y cynhyrchir nhw, ond nad ydynt yn eu harddangos ar unwaith. Ond erbyn diwedd 2012 roedd HistoryPoints yn cwmpasu mwy na 400 o HiPoints, mewn 20 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Cafodd hyn ei gyflawni heb unrhyw arian cyhoeddus ond gyda digon o anogaeth gan awdurdodau lleol (er enghraifft, rhoi caniatâd i arddangos placiau ar eiddo cyngor). Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Croeso Cymru a llawer rhagor.

Rhodri Clark yw Golygydd History Points: e. editor@historypoints.org

Ymwelydd yn sganio plac HistoryPoints yn Eglwys Beuno Sant, Pistyll. Roedd hwn yn fan gorffwys i bererinion ar eu taith i Enlli ac erbyn hyn mae'n rhan o'r daith QR ar hyd Ffordd y Pererinion yng ngogledd Cymru.

A tourist scanning a HistoryPoints plaque at St Beuno's Church, Pistyll. This was a resting point for pilgrims heading to Bardsey and now features in the QR tour along the North Wales Pilgrim's Way.



History Points



Mae rhai o blaciau HistoryPoints mewn mannau anghysbell, fel hwn wrth ymyl Llwybr Arfordir Cymru yn Eryri sy'n tynnu sylw cerddwyr at arwyddocâd cynhanes yr ardal.

Some of HistoryPoints plaques are in remote areas, such as this one beside the Wales Coast Path in Snowdonia which alerts walkers to the area's prehistoric significance.

A scheme called HistoryPoints has placed QR codes at hundreds of locations around Wales - bringing history to the public on their mobile phones and tablets. HistoryPoints' editor **Rhodri Clark** explains.

Conwy Chamber of Trade funded the first batch of QR plaques and window stickers, and did not attempt to over-ride the project's editorial independence. This remains a cornerstone of HistoryPoints. Each "HiPoint" site is selected for its interest - and never because a commercial company has paid for it. Conwy County Borough Council's conservation planning officer provided valuable guidance on where and how QRs could be displayed. We set the bar as high as possible, Conwy being a UN World Heritage Site!

HistoryPoints' designer, Eugene Stevenson developed the interface, with smartphone users in mind. In areas of poor reception it sometimes takes several attempts to download a web page; how many people would persevere after the first or second "Web page unavailable" message? Superfluous material was banned, making the pages look fairly bland by internet standards. Our system provides a summary text at each location, independent of internet access. Users can store the web page address for later, if they're tempted by the summary but unable to download on the spot.

The first HiPoints included a "Ghosts & Legends" self-guided walking tour within Conwy, to hook people who might not consider themselves interested in History. Subsequent local tours include "Dig for Victory" in Colwyn Bay, which matches buildings to their wartime uses by divisions of the relocated Ministry of Food - which included inventing recipes such as "Brains on toast"!

Tours are one of several devices which encourage people who read one page to explore related HiPoints, using the maps provided. Some linkages cross county or regional boundaries. The pilot linked together HiPoints along the Wales Coast Path, including a page explaining the names (with sound files for pronunciation) of peaks visible from Conwy Mountain. By the time the Wales Coast Path officially opened in May 2012, we'd featured 37 HiPoints along the path across Conwy County Borough, providing an insight not only into the history

Mae'r bws o dras hwn yn Llandudno yn gweithredu mewn ardal mor fach (o gwmpas y Gogarth) fel ei fod yn addas i'w gynnwys fel HiPoint, felly mae QR yn y ffenest.

This vintage coach in Llandudno operates in such a confined area (around the Great Orme) that it's suitable to feature as a HiPoint, hence the QRs in the window.

of buildings but also geology, place names, folklore, significant events, natural history and the hidden stories behind laconic memorials.

The Wales Coast Path has been the backbone of HistoryPoints' extension into South, Mid and West Wales. At the time of writing, there are almost 200 HiPoints along the path, from Flint to Chepstow. We believe that no other long-distance path in the world has received such comprehensive interpretation via mobile phones. We've also focused on the National Cycle Network's main cross-Wales routes. One of our latest tours follows the North Wales Pilgrim's Way, neatly bringing modern technology to a route trodden for over 1,000 years.

We don't pretend to be comprehensive - more *Lonely Planet* than *Encyclopaedia Britannica*. Every building, bridge and tree has a history; our task is to flag up the most interesting ones. In Conwy alone, a comprehensive approach would have involved hundreds of QRs but left visitors overwhelmed (and probably upset the conservation planning officer). Old age is no guarantee that a building's history makes an interesting read. We feature recent buildings, such as the Senedd, as readily as old ones. In some areas, the enthusiastic participation of history societies has swept HistoryPoints along.

Nine languages appear on our website, where volunteers have translated texts.



A French woman who loves Wales has translated more than 150 HiPoint pages. Visitors enjoy a free French-language guide, and the information is visible to French-language search engines - potentially generating new visits. Some of our Chinese translations are tailored to explain social concepts familiar to Europeans.

The biggest difficulty we've encountered is property owners or managers receiving our QRs hot off the press, but not displaying them straight away. But by the end of 2012 HistoryPoints encompassed more than 400 HiPoints, in 20 of the 22 Welsh unitary authority areas. This was achieved with no public funding but plenty of encouragement from local authorities (such as consent for

displaying plaques on council property), the Countryside Council for Wales, Visit Wales and many others.

Rhodri Clark is History Points Editor.
e. editor@historypoints.org

Drwy sganio'r QRs ar y Cob ym Mhorthmadog mae'r llun hwn yn ymddangos, gyda nodiadau am darddiad yr enwau a ffeiliau sain ar gyfer yr ynganiad. Ar ddiwrnod cymylog, gallwch ddefnyddio'r ddyfais hon i weld yr hyn nad ydych chi'n gallu'i weld! Scanning QRs on the Cob at Porthmadog calls up this annotated photo, with notes on the names' origins and sound files for pronunciation. On a cloudy day, you can use this facility to see what you can't see!



Dehongli Fel y Graig ym Mharc Cyfarthfa, Merthyr Tudful

Cafodd **Claire Dovey Evans**, cyn Swyddog Amgueddfeydd ym Merthyr Tudful, gyfle i ailymweld â'i hen gynefin yn nigwyddiad hyfforddi diweddar Dehongli Cymru a gynhaliwyd ym Mharc Cyfarthfa. A ddysgodd hi unrhyw beth newydd?

Roedd hwn yn ymddangos yn gyfle gwyb i mi gael ailymweld â'm gorffennol wrth ddysgu sut i helpu eraill i werthfawrogi eu gorffennol nhw. Ar gynnig oedd y cyfle i ddysgu gan gyd ymarferwyr dehongli a 'chael tro ar' gynhyrchu cynllun deongliadol i safle

yr oeddwn arfer ei adnabod yn dda iawn.

Ar y diwrnod cyntaf, fe ddysgon ni gan Carl Atkinson, o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, sut y dechreuodd dehongli fel disgyblaeth, beth mae'n ei olygu a sut mae'n cydweithwyr yn America yn llwyddo. Yna troi at wrthrych ein tasg cynllunio dehongli ni, sef Gwaith Haearn Cyfarthfa. Cafodd hanes ac arwyddocâd yr heneb wyrthiol hon ei amlinellu i ni gan Ruth Taylor-Davies a rhoddodd hi gipolwg ar raddfa enfawr y gwaith a oedd yn digwydd yno yn y 18fed a'r 19eg Ganrif. Treulio ychydig o amser yn archwilio'r safle ei hun, gan gamu trwy byllau o ddŵr mewn twneli tywyll, dirgel a rhyfeddu at y ffwrneisi 60 troedfedd o uchder. Yn fwy pwysig, sylweddoli cyn lleied y byddai ymwelydd yn ei gael o'r safle heb ryw eglurhad neu syniad am beth yn union oedd yn digwydd yno yn y gorffennol. Yna bu Carl a Suzanna Jones o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ystyried cynulleidfaoedd, eu hymddygiad a'u disgwyliadau, ochr yn ochr ag unrhyw nodau ac amcanion a allai fod gan reolwyr y safle. Yna dysgom am y gwahaniaeth rhwng themâu a phynciau.

Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda Huw Lewis, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, bachgen o Ferthyr (dim llai!), a siaradodd am yr angen i roi profiad mwy boddhaus i ymwelwyr â safleoedd treftadaeth. Dylai dehongli fod yn rhywbeth y gall pawb ymateb iddo, meddai ef - dylai rhan o ymgysylltu â dehongli fod fel 'edrych mewn drych'. Cymerodd y Gweinidog y cyfle i lansio'n swyddogol Gynllun Dehongli

Cymru Gyfan - cynllun uchelgeisiol ac arloesol sy'n cynnig cyfres drosfwaol o themâu deongliadol i dreftadaeth Cymru, y gall safleoedd unigol ddewis cysylltu â nhw, i gydlyn dehongli ar draws Cymru heb orfodi un arddull neu frand arbennig. (Gweler erthygl Dave Penberthy yn Rhifyn 18). Mynegodd Cyfarwyddwr Cadw, Marilyn Lewis, ei gwerthfawrogiad o Weinidog Treftadaeth sy'n deall gwerth dehongli ac sy'n cefnogi Cadw yn y maes gwaith hwn.

Wedi cyflwyniad ar yr amrywiaeth o gyfryngau dehongli sydd ar gael, gan Steven Richard-Price o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, aethom ati i gynhyrchu'n cynlluniau dehongli ein hunain i'r gwaith haearn. Cafwyd syniadau ardderchog, yn amrywio o bobl haearn anferth yn y tirlun, i reilins yn sillafu ymadroddion, a lluniadau yn y llawr a fyddai'n llwybrau i'r ymwelwyr eu dilyn. Dangoswyd digon o ddychymyg ac mae'n amlwg fod pawb wedi dewis yr yrfa iawn! Roedd hwn yn achlysur gwerth chweil, a gyfoethogwyd gan leoliad cyfareddol Parc Cyfarthfa, y bwyd arbennig a'r gwiwerod hwyliog a driodd eu gorau i ymuno â ni ar rai o'r sesiynau!

Trefnwyd Dehongli Fel y Graig gan Dehongli Cymru, fe'i noddwyd gan Cadw a chafodd gefnogaeth y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth.

Mae Claire Dovey-Evans yn Swyddog Village Alive gydag adventa ac yn Ymgynghorydd Dehongli i gynllun grant Sense of Roots. e. claire@adventa.org.uk

Cast Iron Interpretation at Cyfarthfa Park, Merthyr Tydfil

Claire Dovey Evans, former Museums Officer in Merthyr Tydfil, took the opportunity to revisit old haunts at Interpret Wales' recent training event held at Cyfarthfa Park. Did she learn anything new?

This promised to be a fantastic opportunity for me to revisit my own past while learning how to help others appreciate theirs. On offer was the chance to learn from fellow interpretation professionals and to 'have a go' at producing an interpretive plan for a site that I used to know pretty well.

On day one, we learned from Carl Atkinson, of the Countryside Council for Wales, how interpretation as a discipline came about, what it involves and how our American colleagues are actually quite good at it. We then turned to the object of our own interpretive planning task, the Cyfarthfa Ironworks. The history and significance of this impressive scheduled monument was ably outlined for us by Ruth Taylor-Davies, and the sheer scale of the operation that went on there in the 18th and 19th centuries became apparent. We spent some time exploring the site itself, wading through pools of water in dark mysterious tunnels and taking in the 60ft high furnaces. More importantly, we recognised how little a visitor would get from the site without some explanation or idea of what actually went on there in the past. Carl and Suzanna

Jones of the Brecon Beacons National Park then considered audiences, their behaviour and expectations, alongside any aims and objectives that site managers might have. We then learned about the difference between themes and topics.

The second day started with Huw Lewis, Minister for Housing, Regeneration and Heritage, a Merthyr Boy (no less!), who talked of the need to provide visitors to heritage sites with a more fulfilling experience. Interpretation should be something that everyone can relate to, he said - there should be a part of engaging with interpretation that is like 'looking in a mirror'. The Minister took the opportunity to officially launch Cadw's Pan-Wales Interpretation Plan - an ambitious and innovative plan providing an over-arching set of interpretive themes for Welsh heritage, which individual sites can choose to link into, to co-ordinate interpretation across Wales without imposing a particular style or brand. (See Dave Penberthy's article in Issue 18). Cadw's Director Marilyn Lewis expressed her appreciation for a Heritage Minister who understands the value of interpretation and supports Cadw in this area of their work.

After a presentation on the variety of interpretive media available, by Steven Richard-Price of the Forestry Commission Wales, we set to producing our own interpretive plans for the ironworks. We came up with some impressive ideas, ranging from huge iron people in the landscape, to railings spelling out phrases,



and designs in the floor providing trails for visitors to follow. We were a very imaginative lot and obviously all in the right career! This was a worthwhile event, topped off by the spectacular setting of Cyfarthfa Park, the fantastic food and the very entertaining squirrels who tried their best to join us for some of the sessions!

Cast Iron Interpretation was organised by Interpret Wales, sponsored by Cadw and supported by the Association for Heritage Interpretation.

Claire Dovey-Evans is Village Alive Officer with adventa and Interpretive Advisor to the Sense of Roots grant scheme. e. claire@adventa.org.uk



Uchod: paentiadau 19eg ganrif Gwaith Haearn Cyfarthfa. Prif lun: Cymerodd Robert T. Crawshay y ffotograff hwn o'r gwaith haearn o Gastell Cyfarthfa yn y 1860au: Y tair delwedd o gasgliad Amgueddfa Castell Cyfarthfa ac Oriel Gelf Brycheiniog. Above: 19th century paintings of Cyfarthfa Ironworks. Main photo: Robert T. Crawshay took this photograph of the Ironworks from Cyfarthfa Castle in the 1860's. All three images from the collection of Cyfarthfa Castle Museum and Art Gallery.

Her dwyieithrwydd ym maes diwylliant a threftadaeth

Os ydych yn ymwneud â dehongli a/neu gyfieithu, sicrhewch eich bod yn cadw lle ar gyfer seminar undydd Amgueddfa Cymru a gynhelir ddydd Gwener 5 Gorffennaf. Trafodir y cyfleoedd a'r heriau sy'n ymwneud â dehongli treftadaeth Cymru yn ddwyieithog, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau sydd ar ddod mewn deddfwriaeth.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws, yn annerch y seminar er mwyn esbonio effaith Mesur newydd y Gymraeg (2011) a'i dyheadau ynghylch cenedl gwbl ddwyieithog. Yn ogystal, bydd cyfle i drafod materion ymarferol â chydweithwyr a rhannu profiadau ac arfer da.

Cynhelir y seminar yn Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd ddydd Gwener 5 Gorffennaf.

Os hoffech fynychu, cysylltwch â mari.gordon@amgueddfacymru.ac.uk.

The challenge of bilingualism in culture and heritage

If you're involved in interpretation and/or translation make sure you book a place on Amgueddfa Cymru's one-day seminar on Friday 5 July. The opportunities and challenges of interpreting Wales's heritage bilingually will be discussed, especially in the light of the forthcoming changes in legislation.

The Welsh Language Commissioner Meri Huws will address the seminar, to explain the impact of the new Welsh Language Measure (2011) and her aspirations for a fully bilingual nation. There will also be an opportunity to discuss the practicalities with colleagues, and to share experiences and good practice.


The seminar is at National Museum Cardiff on Friday 5 July.

If you'd like to attend please contact mari.gordon@amgueddfacymru.ac.uk.


Ein Treftadaeth – rhaglen newydd o grantiau bach a lansiwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae rhaglen newydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri o grantiau bach, sef *Ein Treftadaeth*, a fydd yn cynnig grantiau o rhwng £10,000 a £100,000 wedi cael ei lansio. Nod y Gronfa yw gwneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau. Wrth ddysgu am grantiau, mae'r Gronfa yn ystyried yr ystod eang o fanteision y gallai prosiect eu sicrhau, a bydd yn rhoi pwys ychwanegol ar ganlyniadau megis rhoi cyfle i bobl ddysgu am dreftadaeth. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri am wybod pa wahaniaeth y mae eich prosiect yn bwriadu ei wneud a pha weithgareddau y mae eich prosiect yn bwriadu eu cynnal.

Evch i www.hlf.org.uk/howtoapply i gael rhagor o wybodaeth a gofyn am gyngor.



Our Heritage – Heritage Lottery Fund's new small grant programme



Our Heritage, awarding grants of between £10,000 and £100,000 has just been launched. HLF's goal is to make a lasting difference for heritage, people and communities. In awarding grants, they take into account the broad range of benefits that a project may deliver and will give extra weight to outcomes such as giving people the opportunity to learn about heritage. HLF wants to know about the

difference that your project sets out to make as well as the activities that the project sets out to deliver.

Visit www.hlf.org.uk/howtoapply for further information and to request advice.